# Ein cynllun corfforaethol 2023–25

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Rhagair

**Ers i ni lansio ein strategaeth ar gyfer 2020–2025, mae'r amgylchedd rydym i gyd yn byw ac yn gweithio ynddo wedi newid yn aruthrol. Yn y flwyddyn i ddod, bydd y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu heriau enfawr ar draws pedair gwlad y DU. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig i wella iechyd a llesiant pawb.**

## Y Cyd-destun strategol

**Efallai fod yr agweddau gwaethaf ar Covid y tu ôl i ni. Ond mae cynnydd cyson mewn heintiau yn ogystal ag effaith y pandemig ar iechyd hirdymor pobl a'r effaith ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfrannu at yr heriau enfawr a wynebir gan y gweithwyr proffesiynol cofrestredig rydym yn eu rheoleiddio a'r partneriaid rydym yn cydweithio â nhw.**

Mae'r GIG wedi gorfod wynebu pwysau arbennig o eithafol y gaeaf hwn wrth i ymchwydd mewn Covid gyd-daro â thymor ffliw anodd ochr yn ochr ag arosiadau hir am driniaeth i lawer. Mae diffyg capasiti mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol preswyl a chartref wedi creu pwysau ychwanegol ar draws y sector ac i bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hynny.

Mae prinder yn y gweithlu ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn ddwys. Mae lefelau uchel o chwyddiant wedi dwysau heriau recriwtio a chadw. Mae streiciau gan undebau gofal iechyd wedi amlygu rhwystredigaeth ynghylch cyflog ac amodau gwaith. Mae'r niferoedd ar ein cofrestr yn uwch nag erioed ond mae'r galw am weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol yn parhau i gynyddu.

Mae'n annerbyniol bod gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn y GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae effaith anghydraddoldeb a gwahaniaethu ar weithwyr proffesiynol yr NMC yn effeithio ar ddarparu gofal yn ddiogel ac mae hyn yn arwain at ganlyniadau iechyd gwaeth i bobl a chymunedau. Darllenwch ragor am sut rydym yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ar **dudalen 8**, gan ddechrau gyda symud ymlaen ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) o fewn ein sefydliad ein hunain.

Rydym yn talu teyrnged i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn ogystal â myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth am eu hymroddiad i ddarparu safonau uchel o ofal yn ystod yr amseroedd hynod heriol hyn.

Rydym yn gwybod bod bydwragedd yn mynd ati i ddarparu gofal caredig, rhagorol a diogel, felly mae'r adroddiadau diweddar ar ddiogelwch mamolaeth yn Lloegr yn peri pryder mawr i bawb sy'n ymwneud â gwasanaethau mamolaeth. Ar gefn cyfres o ymchwiliadau tebyg, nododd adroddiad Adolygiad Annibynnol Dr Bill Kirkup o wasanaethau mamolaeth yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Prifysgol East Kent Hospitals yr hydref diwethaf fethiannau dinistriol. Mae ein meddyliau gyda'r menywod, eu babanod a'u teuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio mor ofnadwy gan y digwyddiadau ofnadwy hyn.

Erys anghydraddoldebau iechyd mewn gwasanaethau mamolaeth. Mae adroddiadau fel **MBRACE-UK Saving Lives, Improving Mothers' Care** yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o farw wrth roi genedigaeth os ydynt o grŵp Du neu leiafrif ethnig, yn hŷn, neu o gefndiroedd mwy difreintiedig yn gymdeithasol. Mae ymchwiliadau diweddar, gan gynnwys **adroddiad ymchwiliad**, Birthrights, **adroddiad** Profiad Mamau Du Five X More a'r **Adroddiad anweledig** wedi rhoi mewnwelediad ychwanegol i ni i ganlyniadau gwael a phrofiadau gwael menywod o'r mwyafrif byd-eang.

Mae gweithio gyda'n partneriaid i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni, fel y nodir isod.



## Gwella iechyd a llesiant pawb

### Mae ein strategaeth gorfforaethol 2020–2025 wedi bod yn sail dda ar gyfer ein gwaith yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.

Ein tri philer craidd - rheoleiddio, cefnogi a dylanwadu; ein gweledigaeth o wella iechyd a llesiant pobl drwy gefnogi gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig; ac mae ein gwerthoedd o degwch, caredigrwydd, uchelgais a chydweithio, wedi bod yn arbennig o arwyddocaol.

Mewn ymateb i heriau'r tair blynedd diwethaf, rydym wedi gorfod gohirio neu leihau cwmpas rhai prosiectau arfaethedig. Ond fe wnaeth ein strategaeth ein harwain wrth i ni ymateb yn effeithiol i'r pandemig a fframio cyflawniad llwyddiannus nifer o fentrau arfaethedig sylweddol dros y cyfnod hwn. Byddwn yn adeiladu ar y cynnydd hwn yn y ddwy flynedd sy'n weddill o'r strategaeth.

Rydym eisoes wedi dechrau meddwl am ein strategaeth ar gyfer 2025–2030 ac, yn ystod y flwyddyn i ddod, edrychwn ymlaen at weithio gyda'r cyhoedd, ein gweithwyr proffesiynol, ein partneriaid a'n cyflogeion wrth i ni ddatblygu ein ffordd o feddwl ymhellach.



# Ein ffocws ar gyfer 2023–2024



## Ein prif flaenoriaeth sefydliadol yw lleihau nifer yr achosion addasrwydd i ymarfer sydd gennym ar agor yn gyflym ac yn ddiogel.

Rydym yn gwybod bod lleihau ein llwyth achosion a chyflymu'r amser y mae'n ei gymryd i reoli pob achos yn hanfodol bwysig i bawb yr effeithir arnynt; y gweithwyr proffesiynol sy'n mynd trwy ein prosesau, pobl sydd wedi gwneud cwynion a thystion eraill.

Yn sgil atal gwrandawiadau personol ac effeithiau eraill y pandemig, gwelwyd ein llwyth achosion ar ei uchaf, sef 6,582 ym mis Medi 2021. Yn sgil cyrhaeddiad cyfarwyddwr rheoleiddio proffesiynol newydd yr haf diwethaf, ymgyrch newydd i gyflymu ein prosesau a mewnbwn gan dimau o bob rhan o'r ardal gwelodd yr NMC ostyngiad i 5,660 erbyn mis Chwefror eleni.

Yn 2023–2024, byddwn yn bwrw ymlaen ag amrywiaeth o fesurau i leihau'r llwyth achosion yn ddiogel ac mewn ffyrdd sy'n hybu hyder y cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys; gwella goruchwyliaeth gan reolwyr a goruchwyliaeth o'n gwaith achos drwy gydol ein proses; optimeiddio ein prosesau gwaith achos allweddol; a phrofi a threialu ffyrdd newydd o weithio.

Bydd **diwygio rheoliadau sy'n nodi sut rydym yn gweithredu** yn gymorth aruthrol, gan ein galluogi i weithredu'n gyflymach i amddiffyn y cyhoedd os na all rhywun fodloni'r safonau hyfedredd ac ymddygiad gofynnol. Bydd deddfwriaeth fwy modern a hyblyg hefyd yn caniatáu i ni gadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gliriach ac yn haws i bobl ei deall, yn cryfhau ein sicrwydd ansawdd o gyrsiau gradd nyrsio a bydwreigiaeth a gwneud yn siŵr mai dim ond pobl sydd wedi cofrestru gyda ni sy'n defnyddio'r teitl "nyrs".

Pwysigrwydd diwygio rheoleiddiol wrth helpu i wella sut rydym yn gweithredu yw pam ei fod yn flaenoriaeth allweddol eleni. Croesawyd ymrwymiad Llywodraeth y DU ym mis Chwefror i fwrw ymlaen â'r newidiadau hyn. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio'n agos gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod y diwygio'n gweithio i bobl sy'n derbyn gofal, ein gweithwyr proffesiynol, ein partneriaid a'n cydweithwyr yn yr NMC.

Mae **cefnogi'r gweithlu** yn ffocws pellach ar gyfer 2023–2024. Gan nad ydym bellach yn rhwym i Gyfarwyddeb yr UE, rydym wedi adolygu'r safonau a osodwyd gennym ar gyfer cyrsiau addysg uwch ym meysydd nyrsio a bydwreigiaeth. O ganlyniad, rydym yn cyflwyno meini prawf derbyn mwy hyblyg i alluogi prifysgolion i apelio at ystod ehangach o ddarpar fyfyrwyr, gan greu cyfleoedd mwy cynhwysol i bobl ymuno â'r proffesiynau. Ac rydym yn caniatáu i fyfyrwyr o fis Medi ddefnyddio efelychu ar gyfer hyd at 600 o'u 2,300 o oriau dysgu ymarfer a fydd yn helpu i'w paratoi'n well i ofalu am bobl ar ôl iddynt raddio.

Mae nyrsys a bydwragedd tramor yn dod yn rhan gynyddol bwysig o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Yn 2022, fe wnaethom agor dwy ganolfan newydd i brofi ymgeiswyr rhyngwladol cyn ymuno â'n cofrestr, gan gymryd y cyfanswm i bump. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn rhoi newidiadau ar waith i'n prosesau cofrestru rhyngwladol i sicrhau eu bod yn deg ac yn gymesur yn ogystal â chefnogi gweithwyr proffesiynol i symud ymlaen â'u ceisiadau i gael cofrestriad yn y DU.



Rydym yn gweithio gyda Phrif Swyddogion Nyrsio'r DU a'r gweithlu a chyrff datblygu addysg yn y pedair gwlad i gefnogi eu cynllunio ar gyfer y gweithlu. Drwy rannu ein data a'n mewnwelediad, a gweithio ar y cyd, gallwn gefnogi eu cynlluniau o ran recriwtio, cadw a llesiant yn wyneb y galw cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal.

Yn 2023–2024, byddwn hefyd yn canolbwyntio ar **ddiogelwch gwasanaethau mamolaeth**. Byddwn yn gweithio ag ymddiriedolaethau, sefydliadau addysg uwch a rheoleiddwyr eraill i fynd i'r afael â phryderon am ddiogelwch gwasanaethau mamolaeth yn Lloegr ac i sicrhau gwelliannau cynaliadwy ar draws y pedair gwlad. Mae'n bwysig bod gwasanaethau mamolaeth yn cael adnoddau priodol, gan gynnwys gyda'r nifer cywir o ymarferwyr.

Mae ein safonau bydwragedd ar gyfer y dyfodol yn cael eu rhoi ar waith ar draws cyrsiau bydwreigiaeth prifysgolion ac yn cael eu mabwysiadu gan ymarferwyr. Mae gan fenywod, babanod a theuluoedd bob hawl i ddisgwyl gofal diogel, effeithiol a charedig, ac mae ein safonau yn cefnogi gweithwyr bydwreigiaeth proffesiynol i ddarparu hyn, gan gynnwys ymddwyn yn dosturiol, gweithio fel rhan o dîm a chodi llais pan aiff pethau o chwith.

Rydym hefyd wedi newid safonau ein rhaglen bydwreigiaeth fel y gall myfyrwyr gael profiad mewn unedau mamolaeth sy'n cael eu rhedeg gan fwy nag un darparwr mamolaeth. Byddwn nawr yn cefnogi darparwyr addysg a phartneriaid dysgu ymarfer i roi'r newid hwn ar waith. Bydd hyn yn helpu myfyrwyr i gael profiad o wahanol ddulliau, sy'n arbennig o bwysig os yw un o'r gwasanaethau lle maent yn hyfforddi yn wynebu heriau.

Er mwyn cyflawni hyn i gyd mae'n rhaid i ni fod yn **sefydliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol**. Byddwn yn ymgysylltu mwy â chydweithwyr trwy gymorth cynhwysol, arweinyddiaeth effeithiol, datblygiad personol a gwerthoedd cryf, gan gefnogi gwell gwasanaeth cwsmeriaid i'r cyhoedd a'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr. Mae gwaith gwella mewnol i ddylunio a gweithredu systemau digidol newydd i'n helpu i reoleiddio'n well yn parhau, gan gynnwys cyflwyno offer a systemau digidol newydd i'w gwneud yn haws i gydweithwyr yr NMC wneud eu gwaith yn dda a chynyddu eu cynhyrchiant.

## Diolch yn fawr

### Diolch i bawb sy'n gwneud yr holl waith hwn yn bosibl ac sy'n parhau i rannu adborth, her a mewnwelediad amhrisiadwy.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n gweithwyr proffesiynol cofrestredig am ddangos ymroddiad o'r fath wrth weithio trwy gyfnod anodd iawn. Rydym yn ddiolchgar i'n partneriaid, gan gynnwys aelodau ein Fforwm Llais y Cyhoedd newydd, am ein cefnogi ac ymgysylltu â ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio.

Hoffem hefyd fynegi ein diolch i'r Cyngor ac aelodau Cyswllt yn ogystal â phawb yn yr NMC am eu cyfraniad i'n gwaith yn 2022-2023. Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio dros y flwyddyn i ddod i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol tra'n aros yn driw i'n gwerthoedd.



**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd



**Syr David Warren**
Cadeirydd y Cyngor

# Mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb

**Mae'n annerbyniol bod gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn y GIG a gweithlu gofal cymdeithasol.**

Mae effaith anghydraddoldeb a gwahaniaethu ar weithwyr proffesiynol yr NMC yn effeithio ar ddarparu gofal yn ddiogel ac mae hyn yn arwain at ganlyniadau iechyd gwaeth i bobl a chymunedau. Gall sut mae'r NMC yn rheoleiddio, cefnogi a dylanwadu helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn sydd wedi'u dogfennu'n dda. Ond rydym yn cydnabod y bydd ein rôl arwain yn cael yr effaith fwyaf unwaith y byddwn wedi symud ymlaen yn fwy arwyddocaol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) o fewn ein sefydliad ein hunain. Er ein bod wedi gwneud cynnydd, rydym yn gwybod bod gennym dipyn o ffordd i fynd eto i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn yr NMC.

Y llynedd, dangosodd ein **canlyniadau o arolwg Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu** ostyngiad yn nifer y cydweithwyr NMC sy'n adrodd am wahaniaethu, bwlio ac aflonyddu yn ein gweithle. Mae nifer y cydweithwyr o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig sy'n adrodd am aflonyddu gan bobl y tu allan i'r NMC hefyd wedi gostwng, ond yn destun pryder mae'n dal i fod deirgwaith yn uwch nag ydyw ar gyfer ein cydweithwyr gwyn. Ac er bod canfyddiadau o ddilyniant gyrfa cyfartal wedi gwella, mae ein **data bwlch cyflog ethnigrwydd** yn dangos bod gennym dipyn o ffordd i fynd eto.



Rydym wedi nodi cynlluniau ar gyfer sut y byddwn yn dod yn **gyflogwr tecach a mwy cynhwysol** yn ein Cynllun EDI 2022-2025. Mae hyn yn cynnwys sut y byddwn yn gwella ein prosesau recriwtio a rheoli pobl fel y gall pawb a gyflogwn ffynnu heb rwystrau. Byddwn yn parhau i gasglu adborth trwy arolygon mewnol ac arolygon meincnodi allanol ac yn adrodd yn agored ar yr hyn a ganfyddwn.

Drwy wneud y gwelliannau hyn, byddwn mewn sefyllfa gryfach i **fynd i'r afael ag awdurdod â'r gwahaniaethu a wynebir gan y rhai ar ein cofrestr**. Mae adroddiadau allanol yn parhau i ddangos bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn wynebu rhwystrau annerbyniol. Ym mis Chwefror, cyhoeddodd GIG Lloegr eu Hadroddiad Safon Cydraddoldeb Hiliol Gweithlu 2022 ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG Lloegr, a amlygodd, er bod rhai gwelliannau ymylol, bod staff Du a lleiafrifoedd ethnig yn cael profiad gwaeth na'u cymheiriaid gwyn.

Mae ein dirnadaeth ein hunain yn adleisio'r pryderon hyn. Er enghraifft, mae ein hymchwil Uchelgais dros newid yn dangos bod rhai cyflogwyr yn cyfeirio mwy o ddynion a gweithwyr proffesiynol Duon at addasrwydd i ymarfer o gymharu â chyfansoddiad ein cofrestr a'u gweithlu eu hunain. Rydym wedi ymrwymo i ddysgu o brofiadau pobl i newid hyn a sicrhau bod ein prosesau yn deg ac yn hygyrch i bawb.

Mae ein **cod yn arf pwerus ar gyfer mynd i'r afael â gwahaniaethu a chanlyniadau iechyd anghyfartal** ymhlith pobl sy'n derbyn gofal a'u hanwyliaid. Mae'n nodi bod gan weithwyr proffesiynol gyfrifoldeb i drin pawb yn deg, herio gwahaniaethu a gweithredu fel eiriolwyr dros bobl, gan eu helpu i gyrchu'r gofal sydd ei angen arnynt. Amlygwyd hyn yng nghyhoeddiad yr adnodd gwrth-hiliaeth ar gyfer gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol y GIG a gynhyrchwyd gennym ar y cyd â GIG Lloegr a Chonffederasiwn y GIG y llynedd.



# Gweithgarwch gwaith allweddol 2022-2023

## Rheoleiddio

Fe wnaethom **leihau nifer yr achosion addasrwydd i ymarfer agored** o 6,582 ym mis Medi 2021 i 5,660 ym mis Chwefror 2023. Gwyddom fod lleihau hyn hyd yn oed ymhellach yn ddiogel yn hollbwysig i bawb yr effeithir arnynt ac mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i ni.

Erbyn hyn mae **pum canolfan** lle gall gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n rhyngwladol a'r rhai sy'n dychwelyd i ymarfer sefyll eu Harholiad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol (OSCE). Fe wnaethom agor **dwy ganolfan newydd rhwng 2022-23**, gan gynyddu ein gallu i brofi OSCE i o leiaf 35,000 o ymgeiswyr bob blwyddyn. Bydd hyn yn helpu mwy o weithwyr proffesiynol i ymuno â'n cofrestr yn gyflym ac yn ddiogel.

Fe wnaethom ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'n gofynion iaith Saesneg ar gyfer ymgeiswyr nyrsio a bydwreigiaeth tramor a chawsom **fwy na 34,000 o ymatebion**. Fe wnaeth yr adborth lywio ein cynigion terfynol a gymeradwywyd gan ein Cyngor y llynedd. Bydd y newidiadau yn helpu i fynd i'r afael â'r angen am staffio diogel tra'n sicrhau y bydd y cyhoedd yn derbyn gofal diogel, effeithiol a charedig sy'n bodloni ein safonau.

Yn dilyn cyfnod datblygu ac ymgynghori a ddechreuodd yn 2019, **fe wnaethom gyhoeddi ein safonau ôl-gofrestru newydd** ar gyfer nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN) a chymwysterau nyrsio cymunedol arbenigol (SPQ). Bydd y rhain yn helpu i ddarparu gofal modern, diogel, caredig ac effeithiol i bobl yn eu cartrefi a'u cymunedau.

Ar ôl i ni adael yr UE, fe wnaethom adolygu safonau ein rhaglen addysg cyn cofrestru. Ymatebodd **mwy na 2,700 o bobl** i'n hymgynghoriad y llynedd ac fe wnaeth eu barn wybodus ein helpu i fireinio'r newidiadau arfaethedig i'r ffordd rydym yn gosod safonau rhaglenni cyrsiau addysg uwch nyrsio a bydwreigiaeth y byddwn yn dechrau eu rhoi ar waith yn awr.

Yn ystod y pandemig Covid-19 gofynnodd y Llywodraeth i ni agor cofrestr dros dro fel y gallai mwy o weithwyr proffesiynol gefnogi'r ymateb i'r argyfwng. Y llynedd fe wnaethom barhau i gynnal y gofrestr hon a, phan ofynnodd y Llywodraeth i ni ei chadw ar agor am **ddwy flynedd ychwanegol**, fe wnaethom gynllunio sut i wneud hynny'n ddiogel

## Cefnogi

**Mewn ymateb i bwysau'r gaeaf**, fe wnaethom ymunso â phrif swyddogion nyrsio'r DU a'r Comisiwn Ansawdd Gofal ym mis Tachwedd i nodi sut y byddem yn cefnogi gweithwyr proffesiynol, gan amlygu'n benodol sut y mae ein Cod yno i lywio eu dyfarniadau a'u penderfyniadau ym mhob amgylchiad.

Cafodd ein Fforwm Llais y Cyhoedd sydd newydd ei ffurfio ei flwyddyn lawn gyntaf, gan helpu i lunio meysydd allweddol o'n gwaith. Mae **22 o aelodau ymroddedig iawn** ar draws pedair gwlad y DU ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu eu barn ar brosiectau'r NMC. Rydym yn gwerthfawrogi eu mewnbwn yn fawr, ac mae adborth gan aelodau am y fforwm yn gadarnhaol.

**Cyn streiciau** gan y Coleg Nyrsio Brenhinol ac undebau eraill, fe wnaethom ailadrodd ein safbwynt, gan gadarnhau bod gan ein cofrestreion yr hawl i gymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol cyfreithlon a phwysleisio bod ein Cod yn parhau i fod yn berthnasol.

Fe wnaethom lansio **dau animeiddiad newydd**. Mae'r cyntaf, sydd wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol, yn ymdrin â sut mae safonau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol drwy gydol eu gyrfaoedd. Mae'r ail, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â chymdeithion nyrsio ac aelodau'r cyhoedd, yn egluro rôl cymdeithion nyrsio fel aelodau hanfodol o'r tîm nyrsio ehangach wrth ddarparu gofal diogel, caredig ac effeithiol.

## Dylanwadu

Yn ei hymateb i'r **ymgynghoriad ar ddiwygio rheoleiddiol** ym mis Chwefror, dywedodd y Llywodraeth: "Mae'r NMC...wedi bod yn amlwg yn ei waith i gefnogi datblygiad y diwygiadau hyn. At hynny, mae'r NMC wedi cwblhau gwaith paratoi sylweddol i sicrhau parodrwydd i roi'r newidiadau hyn ar waith."

Fe wnaethom gyhoeddi data ar ein cofrestr ddwywaith a oedd ar gyfer 2021–2022 yn dangos cynnydd mawr yn nifer y gweithwyr proffesiynol a ymunodd â hi am y tro cyntaf, gyda bron i hanner wedi hyfforddi y tu allan i'r DU. Am y tro cyntaf cyhoeddwyd adroddiad atodol gennym sy'n cyflwyno dadansoddiad pellach o'r data sydd gennym am ymunwyr sydd wedi'u hyfforddi'n rhyngwladol.

# Ein strategaeth

**Ein huchelgais yw gwella iechyd a lles pobl drwy gefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig. Mae ein strategaeth yn ein helpu i wneud hyn ac yn llywio sut rydym yn cynllunio ein gwaith yn ystod 2020–2025.**

Gallwch ddarllen ein **strategaeth lawn** ar ein gwefan.

## Rheoleiddio

- Cofrestr gywir a thryloyw
- Safonau proffesiynol ac addysgol cadarn
- Sicrhau rhaglenni addysg
- Ymateb yn deg i bryderon addasrwydd i ymarfer (FtP).

## Cefnogi

- Hyrwyddo dealltwriaeth – ein proffesiynau a'n rôl
- Darparwch offer ymarferol – helpu i wreiddio safonau
- Cefnogaeth emosiynol/ymarferol – pobl yn ymwneud â'n prosesau

## Dylanwadu

- Hyrwyddo amgylcheddau gwaith proffesiynol cadarnhaol a chynhwysol
- Rhannu data a mewnwelediad i nodi risgiau o niwed a mynd i'r afael â heriau'r gweithlu
- Annog arloesi rheoleiddiol

## Ein themâu strategol 2020–2025

- Arloesi a gwella
- Cefnogaeth ragweithiol
- Gweladwy a mwy gwybodus
- Ymgysylltu a grymuso
- Mewnwelediad a dylanwad

Byddwn ni hefyd yn sicrhau bod yr NMC yn sefydliad addas ar gyfer y dyfodol.

# Ein hymrwymiadau a'r hyn y maent yn ei olygu i bobl

Yma gallwch ddarllen yr hyn yr ydym wedi ymrwymo i'w wneud. O dan bob ymrwymiad, rydym wedi rhestru sut y bydd y gwaith hwn o fudd i bobl ac yn hyrwyddo gofal diogel, caredig ac effeithiol.

## Cefnogaeth ragweithiol i weithwyr proffesiynol

**Rydym yn gweithio i alluogi ein proffesiynau i gynnal ein safonau heddiw ac yfory, gan ragweld a llunio arferion nyrsio a bydwreigiaeth yn y dyfodol.**

1 **Cyflwyno set newydd o safonau ôl-gofrestru uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ymarfer nyrsio cymunedol.**

Cwblhawyd y gwaith hwn gennym yn 2022.

2 **Darparu mwy o hyblygrwydd mewn addysg a hyfforddiant cyn cofrestru nyrsio a bydwreigiaeth drwy lansio safonau newydd ar gyfer addysg cyn cofrestru yn y DU.**

Yn dilyn ein hymadawiad o'r UE, fe wnaethom adolygu safonau'r rhaglen ar gyfer addysg cyn cofrestru yn y DU. Byddwn yn awr yn cefnogi sefydliadau addysg cymeradwy i roi unrhyw newidiadau ar waith i'w rhaglenni addysg nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio.

- Byddwn yn ehangu cyfranogiad mewn rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth trwy hyblygrwydd mewn meini prawf derbyn, gan greu cyfleoedd newydd, mwy cynhwysol i bobl ymuno â'r proffesiynau.
- Bydd myfyrwyr yn gallu datblygu eu hyder a'u hyfedredd mewn sefyllfaoedd ymarfer amrywiol trwy fwy o ddysgu ymarfer efelychiadol, a fydd yn ei dro o fudd i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.
- Bydd angen i fyfyrwyr bydwragedd gael profiad o arwain a gweithio mewn tîm gyda gwahanol ddarparwyr mamolaeth, i'w galluogi i brofi gwahanol ddulliau o ddarparu gofal bydwreigiaeth cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## 3 Adolygu rheoleiddio ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth uwch.

Byddwn yn archwilio a oes angen rheoleiddio ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth uwch, ac os felly, byddwn yn datblygu ac yn cymeradwyo safonau newydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Os byddwn yn cytuno i symud ymlaen â rheoleiddio arfer uwch, byddem yn rhagweld y manteision canlynol ond mae angen penderfynu ar y rhain o hyd:

- Bydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau uwch ymarferwyr yn hyderus ynghylch y cymorth a'r gofal uwch y gall y gweithwyr proffesiynol hyn eu darparu a sut mae'r rolau hyn yn cadw pobl yn ddiogel.
- Bydd pobl yn gallu edrych ar ein cofrestr a nodi a yw eu gweithiwr nyrsio neu fydwreigiaeth proffesiynol yn bodloni ein safonau ar gyfer ymarfer uwch. Bydd hyn yn hybu ymddiriedaeth yn y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr ac yn magu hyder mewn rheoleiddio proffesiynol.

## 4 Adolygu gofynion ailddilysu ar gyfer gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol.

Rydym wedi newid ein hamserlenni ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad hwn. Byddwn nawr yn cynnal adolygiad llawn o ailddilysu fel rhan o'n strategaeth ar gyfer 2025–2030. Bydd hyn yn ein galluogi i alinio â gwaith datblygu safonol arall, megis adolygu'r Cod yn 2025, ac ystyried sut rydym yn defnyddio'r hyblygrwydd a ddisgwyliwn o ddiwygio rheoleiddiol i lywio sut y bydd ailddilysu yn gweithio yn y dyfodol.

## 5 Gweithredu dull newydd sy'n seiliedig ar ddata ac sy'n gymesur â sicrhau ansawdd addysg sy'n ein galluogi i gael trosolwg mwy cyfannol o sefydliadau a'u rhaglenni i wneud ymyriadau priodol.

Byddwn yn gwella'r ffyrdd rydym yn casglu, cofnodi a dadansoddi data ar ein sefydliadau addysg cymeradwy a'u rhaglenni. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud mwy o ymyriadau wedi'u targedu lle byddwn yn nodi pryderon posibl ac yn cryfhau ein ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

- Byddwn yn gallu gwneud mwy i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu haddysgu i'n safonau, sy'n eu cefnogi i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig.
- Byddwn yn defnyddio data a gwell dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i sicrhau bod rhaglenni'n gynhwysol i bob myfyriwr.

## 6 Gwerthuso a yw amser dysgu wedi'i neilltuo yn unol â safonau cyfredol cymdeithion nyrsio.

Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i ail-sgopio yng ngoleuni effaith y pandemig ar raglenni cymdeithion nyrsio. Byddwn yn monitro amser dysgu wedi'i ddiogelu drwy ein prosesau rheoleiddio craidd ac yn adrodd ar ein canfyddiadau i'n Cyngor fel rhan o'n Hadroddiad Blynyddol Sicrhau Ansawdd. Byddwn yn defnyddio ein canfyddiadau i lywio pa adolygiad neu werthusiad pellach a allai fod yn ofynnol yn y dyfodol.

# Gwella ac arloesi

**Gwella ac arloesi ar draws ein holl swyddogaethau rheoleiddio, gan ddarparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid, a sicrhau'r budd mwyaf i'r cyhoedd o'r hyn a wnawn.**

## 7 Lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a gwneud gwelliannau i'r ffordd rydym yn rheoleiddio i sicrhau ein bod yn prosesu achosion mewn modd amserol, diogel, cymesur ac effeithlon.

Byddwn yn lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer ymhellach drwy wella ein cynhyrchiant, gan wneud yn siŵr bod prosesu yn amserol, yn gymesur, tra'n cynnal diogelwch, a'n bod yn gwario arian yn effeithiol.

- Bydd achosion addasrwydd i ymarfer pobl yn dod i ben yn ddiogel ac yn gyflymach.
- Os na allwn helpu pobl gyda'u pryderon, byddwn yn eu hatgyfeirio cyn gynted â phosibl at sefydliadau eraill sydd mewn gwell sefyllfa i helpu.
- Byddwn yn cefnogi pobl yn fwy yn ystod y broses addasrwydd i ymarfer. Er enghraifft, trwy gymorth cyfryngol i'w helpu i ymgysylltu, neu drwy ganllawiau cliriach ar ein gwefan.



## 8 Gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gyflwyno rhaglen sylweddol o ddiwygio rheoleiddiol i ddileu rhwystrau cyfreithiol sy'n cyfyngu ar welliannau yn y ffordd rydym yn rheoleiddio.

Byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid i lunio cynigion diwygio ar newidiadau i'n trefn a'n rheolau. Bydd hyn yn cynnwys sut rydym yn dylunio ac yn gweithredu prosesau a systemau newydd i gyflawni'r diwygiadau a nodwyd.

- Bydd ein cofrestr yn gliriach ac yn haws i'r cyhoedd ei deall a gall pobl fod yn hyderus bod pawb sy'n defnyddio'r teitl 'nyrs' ar ein cofrestr.
- Byddwn yn gweithredu'n gyflymach i amddiffyn y cyhoedd os na all rhywun fodloni'r safonau hyfedredd neu ymddygiad gofynnol, tra'n annog dysgu o gamgymeriadau gwirioneddol.
- Byddwn yn cryfhau ein dull o sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth, fel y byddwn yn gallu ymyrryd yn fwy effeithiol i sicrhau bod y safonau uchel y mae'r cyhoedd yn eu haeddu yn cael eu cynnal.

## 9 Mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant i wneud yn siŵr bod ein prosesau'n deg i bawb.

Byddwn yn rhoi ein cynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar waith sydd â'r nod o wella canlyniadau i weithwyr proffesiynol yn ein rôl reoleiddio, ac o ran sut rydym yn cefnogi cydweithwyr yr NMC fel cyflogwr.

- Byddwn yn gallu ymateb yn fwy effeithiol a rhoi sicrwydd i bobl drwy feithrin hyder, ymwybyddiaeth a gwybodaeth ein holl gydweithwyr ar faterion EDI.
- Byddwn yn helpu i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu a'r anghydraddoldeb a wynebir gan weithwyr proffesiynol, a fydd yn ei dro yn helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau ym mhrofiadau pobl o iechyd a gofal cymdeithasol.
- Byddwn yn ymgysylltu â grwpiau nas clywir yn aml i'n helpu i ddeall, a gweithio i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl yn eu profi a allai eu hatal rhag derbyn gofal da.

## 10 Parhau i sicrhau bod capasiti OSCE yn bodloni'r galw ac archwilio ffyrdd o wella mynediad.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i reoli capasiti profi ar gyfer rhan arholiad ymarferol y prawf cymhwysedd (yr archwiliad clinigol strwythuredig gwrthrychol neu OSCE). Byddwn hefyd yn cynnal gwaith dichonoldeb ar system archebu ganolog ar gyfer OSCEs i roi mwy o amlygrwydd i gyflogwyr a gweithwyr proffesiynol o gapasiti profi ar draws ein pum canolfan brawf.

- Mae hyn yn cefnogi gweithwyr proffesiynol i symud ymlaen drwy ein proses ymgeisio i gofrestru ac ennill cofrestriad yn y DU, gan helpu i hybu darpariaeth gofal nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU.

## 11 Cyflawni newid polisi a deddfwriaethol er mwyn galluogi dulliau newydd o ymdrin â chofrestriadau rhyngwladol, gan gynnwys adolygiad pellach o ganllawiau iaith Saesneg, er mwyn sicrhau eu bod yn deg.

Byddwn yn rhoi newidiadau ar waith i'n llwybrau cofrestru rhyngwladol i sicrhau bod ein prosesau'n deg ac yn gymesur ar gyfer gweithwyr proffesiynol rhyngwladol a sicrhau bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus bod gan bob gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr y sgiliau i roi gofal diogel, caredig ac effeithiol.

- Byddwn yn sicrhau bod asesiadau teg o sgiliau iaith yn golygu bod yr holl weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â chleifion, y cyhoedd a theuluoedd.
- Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y DU ac Iwerddon fel y gall gweithwyr proffesiynol barhau i ddarparu gofal trawsffiniol brys diogel ar ôl i'r DU adael yr UE.



## 12 Cynnal y gofrestr brys Covid-19.

Byddwn yn cynnal y gofrestr dros dro am ddwy flynedd arall, yn dilyn cais y Llywodraeth i ni wneud hynny. Byddwn yn cefnogi gweithwyr proffesiynol cymwys i symud o'r gofrestr dros dro i'r gofrestr barhaol os ydynt yn dymuno.

- Gall pobl fod yn sicr bod gweithwyr proffesiynol sydd â chofrestriad dros dro yn ddiogel ac yn addas i ymarfer yn y DU a byddant yn parhau i fod hyd nes y daw cofrestriad dros dro i ben.

# Yn fwy gweladwy ac yn fwy gwybodus

**Rydym yn gweithio mewn cysylltiad agos â'n proffesiynau, eu cyflogwyr, a'u haddysgwyr fel y gallwn reoleiddio gyda dealltwriaeth ddyfnach o'r amgylchedd dysgu a gofal ym mhob gwlad yn y DU.**

## 13 Meithrin ymddiriedaeth mewn rheoleiddio proffesiynol trwy ymgyrchoedd wedi'u targedu i adeiladu ymwybyddiaeth o bwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud, a beth rydym yn sefyll drosto.

Byddwn yn cynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu i feithrin ymgysylltiad ac ymddiriedaeth gyda'r cyhoedd, myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth, a gweithwyr proffesiynol fel bod ganddynt ddealltwriaeth ehangach o'n rôl a sut rydym yn rheoleiddio, yn cefnogi ac yn dylanwadu.

- Byddwn yn cefnogi pobl a'u nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i weithio mewn partneriaeth a rhannu penderfyniadau am driniaeth a gofal.
- Byddwn yn gwella ansawdd gofal drwy gynyddu canfyddiadau pobl o berthnasedd ac ymddiriedaeth mewn rheoleiddio, y Cod a'n safonau.



## 14 Ehangu ein hallgymorth cenedlaethol a lleol i ymgorffori rheoleiddio, cefnogi a dylanwadu ar lefel leol.

Gan ddefnyddio partneriaethau a chenhadon cofrestredig, byddwn yn cynyddu ein gallu i gynghori rhaglenni cenedlaethol a lleol ar sut i ymateb i bryderon a heriau o fewn gofal cymdeithasol, practis cyffredinol a'r sectorau preifat a gwirfoddol.

- Byddwn yn ehangu ein cefnogaeth i ystod ehangach o wasanaethau a lleoliadau, gan gefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu'r gofal gorau a mwyaf diogel lle bynnag y maent yn ymarfer.
- Byddwn yn helpu i wella lleoliadau lle mae pobl yn cyrchu gofal drwy greu system gydgysylltiedig, lle rydym yn rhannu ein dysgu a'n gwybodaeth gyda rheoleiddwyr eraill, cyflogwyr a rhanddeiliaid ehangach.
- Byddwn yn cefnogi'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr drwy werthfawrogi eu cyfraniadau, cynnal safonau ar gyfer y proffesiynau a defnyddio ein cyngor i osgoi atgyfeiriadau na allwn weithredu arnynt.



## Grymuso ac ymgysylltu

**Ymgysylltu'n weithredol â'r cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid a'u grymuso. NMC y gellir ymddiried ynddo ac sy'n ymatebol, sy'n meithrin dealltwriaeth weithredol o'r hyn yr ydym ni a'n gweithwyr proffesiynol yn ei wneud dros bobl.**

**15 Creu gwefan fodern a hygyrch sy'n portreadu ein gwerthoedd yn effeithiol, yn darparu ein gwasanaethau craidd, ac yn gwella ein cyfathrebu ac ymgysylltu.**

Byddwn yn gweithredu gwefan newydd sy'n adlewyrchu'n effeithiol ein hunaniaeth a'n rôl i reoleiddio, cefnogi a dylanwadu, ac sy'n gwella ein gwelliannau i swyddogaethau a phrosesau craidd.

- Bydd ein gwefan yn fwy hygyrch i bawb. Byddwn yn cael gwared ar rwystrau, yn hwyluso llywio ac yn defnyddio iaith glir.
- Bydd y cyhoedd yn gallu cyrchu popeth sydd ei angen arnynt mewn un lle ac elwa ar broses atgyfeirio addasrwydd i ymarfer symlach a llawn gwybodaeth.
- Bydd gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn elwa o fynediad gwell i'n hadnoddau a'n gwasanaethau. Bydd hyn yn eu helpu i integreiddio safonau perthnasol yn haws yn eu hymarfer a darparu'r gofal gorau posibl i bobl.



# Mwy o fewnwelediad a dylanwad

## Gan ddysgu o ddata ac ymchwil, rydym yn gwella'r hyn rydym yn ei wneud ac yn gweithio ar y cyd i rannu mewnwelediadau'n gyfrifol i helpu i wella'r system iechyd a gofal ehangach.

### 16 Gwella ein mewnwelediad a'i ddefnyddio i wella ein heffaith a'n dylanwad rheoleiddiol yn y sector.

Gan ddefnyddio ein data ein hunain, a data a rennir gan ein partneriaid, byddwn yn gwella ein dealltwriaeth ac ymateb i faterion o fewn y sector iechyd a gofal. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad mewnwelediad blynyddol newydd i ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol o fewn y sector er budd ein proffesiynau a'r cyhoedd.

- Byddwn yn rhannu ein dirnadaeth i amlygu materion y gwyddom sy'n effeithio ar ansawdd a diogelwch y gofal y mae pobl yn ei dderbyn, megis prinder gweithlu a diwylliannau sefydliadol gwael.
- Byddwn yn gwella ein data am wahanol gynulleidfaoedd fel ein bod yn deall yr effaith a gawn ar bobl â nodweddion amrywiaeth gwahanol ac yn mynd i'r afael ag unrhyw anghymesuredd.
- Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i rannu data a mewnwelediadau er mwyn deall yn well a mynd i'r afael â materion gofal gwael, fel y rheini mewn mamolaeth.



# Sefydliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol

## Byddwn yn alinio ein diwylliant, ein galluoedd a'n seilwaith â'n nodau strategol newydd.

### 17 Cyflawni ein Cynllun Pobl sy'n cefnogi ein cydweithwyr i gael eu cynnwys, eu cadw a'u cefnogi i gyflawni ein strategaeth.

Yn seiliedig ar adborth cydweithwyr yr NMC, byddwn yn gweithredu mentrau allweddol i fynd i'r afael â'r materion sydd o bwys iddynt megis ein pecyn gwobrau, datblygu arweinwyr a dilyniant mewnol.

- Byddwn yn ymgysylltu mwy â chydweithwyr trwy gefnogaeth gynhwysol, arweinyddiaeth gref, datblygiad personol a gwerthoedd cryf.
- Bydd y cyhoedd a'r bobl ar ein cofrestr yn profi gwasanaeth mwy cyson a gwell gan y bydd gennym weithlu mwy sefydlog, ymgysylltiol y mae ei sgiliau a'i dalent wedi'u datblygu.
- Byddwn yn rhedeg mentrau sy'n ysgogi ein pobl i gyflawni eu gorau ac ymfalchïo mewn datblygu pobl eraill. Trwy ein pobl rydym yn cyflawni cenhadaeth yr NMC, a thrwy hynny rydym yn galluogi gofal cleifion o ansawdd uchel.

### 18 Gwella'r ffordd rydym wedi'n strwythuro fel y gallwn gyflawni ein strategaeth.

Byddwn yn adolygu strwythur y sefydliad i sicrhau bod gennym y bobl iawn yn y lleoedd cywir i gefnogi ein hanghenion busnes, ac i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan ddiwygio rheoleiddiol.

- Byddwn yn gwneud newidiadau strwythurol wedi'u targedu fel y gallwn gyflawni ein swyddogaethau'n fwy effeithlon ac effeithiol yn y tymor canolig, a fydd yn ei dro yn cefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen i ddarparu gofal gwell i'r cyhoedd.

### 19 Diweddaru systemau digidol sy'n cefnogi sut rydym yn rheoleiddio i wella'r profiad i gwsmeriaid a chydweithwyr.

Byddwn yn parhau â'n gwaith gwella mewnol i ddylunio a gweithredu systemau digidol newydd i'n cefnogi i reoleiddio'n dda, gan gynnwys ein platfform cofrestru a moderneiddio ein hofferynnau rheoli achosion addasrwydd i ymarfer.

- Byddwn yn diogelu'r cyhoedd ac yn rheoleiddio'n fwy effeithiol drwy sicrhau bod y gofrestr a'n system rheoli achosion yn cadw data cywir yn ddiogel, ar lwyfan technoleg fodern.

## 20 Cyflwyno TG gyfoes drwy ein rhaglen gwella technoleg a busnes craidd i wella ein heffeithlonrwydd.

Byddwn yn dylunio ac yn cyflawni ein cynllun tair blynedd i ddatblygu ein galluoedd technoleg gwybodaeth a fydd yn ein cefnogi i gyflawni ein strategaeth. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno offer a systemau digidol newydd i'w gwneud yn haws i gydweithwyr yr NMC wneud eu gwaith yn dda a chynyddu eu cynhyrchiant.

- Byddwn yn ymateb yn gyflymach i ymholiadau pawb drwy fuddsoddi mewn systemau sy'n hwyluso cydweithio a rhannu gwybodaeth ar draws yr NMC a gyda'n partneriaid.

## 21 Creu mannau gwaith modern sy'n cefnogi llesiant a chydweithio.

Byddwn yn sicrhau bod ein mannau gwaith a'n cyfleusterau yn gynhwysol, yn hygyrch, ac yn addas i'r diben er mwyn galluogi cydweithio effeithiol.

- Byddwn yn adlewyrchu anghenion a chefndiroedd amrywiol y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr trwy ddarparu amgylchedd gwaith hyblyg, hygyrch sy'n hyrwyddo cynhwysiant, yn arbennig yn ein swyddfa yn 23 Portland Place.

## 22 Gweithredu cynllun cynaliadwyedd ac amgylcheddol yr NMC.

Byddwn yn rhoi ein cynllun gweithredu cynaliadwyedd ac amgylcheddol ar waith i sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd gynaliadwy ac amgylcheddol ymwybodol nawr ac yn y dyfodol.

- Byddwn yn ymgorffori arferion cynaliadwy, ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau dyddiol, sydd o fudd i bawb drwy leihau difrod amgylcheddol.

# Ymrwymiad newydd ar gyfer 2023–2024

### Gweithredu safonau newydd y Gymraeg

- Byddwn yn cefnogi hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac yn galluogi ein cydweithwyr i ddeall a diwallu anghenion aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn unol â'r gofynion newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

# Pwy ydym ni

**Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 771,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.**

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

**nmc**
**Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**

23 Portland Place,
London W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

The nursing and midwifery regulator for England, Wales, Scotland and Northern Ireland Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362).